



Y llawlyfr colli swydd

Camau i'ch helpu i ymdopi â cholli eich swydd

- Gwybod eich hawliau
- Gwneud y gorau o'ch arian
- Symud ymlaen

Helpwr
 **Arian**



Llywodraeth EM



Eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian yma i'ch helpu chi. Ar-lein a thros y ffôn, fe gewch chi arweiniad clir ar arian a phensiwn sy'n gyflym i'w ganfod, yn hawdd i'w ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy os oes angen mwy o gymorth arnoch.

Ar gael i bawb ac am ddim, mae HelpwrArian yn eich helpu i dalu eich dyledion, i leihau gwariant ac i wneud y mwyaf o'ch incwm. Er mwyn cefnogi anwyliaid, cynlluniwch ymlaen llaw ar gyfer pryniannau mawr a gofynnwch am hawliau. Adeiladu cynilion a phensiynau, a gwybod eich opsiynau.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

Cyngor diduedd am ddim

ar y we | ar y ffôn

Darparwyd gan



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**



Yma i'ch helpu chi

Mae'r canllaw hwn i'ch helpu chi os oes bygythiad i'ch swydd neu os ydych newydd golli eich swydd. Bydd yn esbonio eich hawliau ac yn dangos i chi y camau y gallwch eu cymryd i ddiogelu eich arian.

Cynnwys

Y pethau cyntaf i'w gwneud	2	Gwneud y gorau o'ch tâl colli swydd	27
Dewisiadau eraill i golli swydd	4	Cynilo neu fuddsoddi tâl colli swydd	29
Ymddeoliad cynnar fel dewis arall i golli swydd	7	Sut i ymdopi gyda llai o arian	31
Gwybod eich hawliau colli swydd	8	Awgrymiadau am sut allwch chi gynyddu eich incwm	33
A yw eich diswyddiad yn deg?	10	Gofyn am help gyda benthyciadau a dyledion	35
Ymgynghoriad colli swydd	12	Diogelu eich cartref	37
Tâl colli swydd	13	Problemau wrth dalu eich rhent	38
Treth a thâl colli swydd	15	Problemau wrth dalu morgais	39
Taliadau eraill pan fyddwch yn gadael	16	Rhowch amser i chwilio am swydd	40
Penderfynu beth i'w wneud gyda'ch pensiwn	17	Chwilio am swydd newydd	41
Gadael gwaith	19	Cysylltiadau defnyddiol	46
Hawliadau a budd-daliadau'r wladwriaeth	21		

Y pethau cyntaf i'w gwneud

Eich cynllun gweithredu



1. Gwneud ymholiadau am ddewisiadau eraill i golli swydd

Os ydych yn credu y gallai eich swydd fod mewn perygl, gwnewch ymholiadau am ddewisiadau eraill i golli swydd a'ch hawliau chi os bydd eich cyflogwr yn awgrymu gweithio llai o oriau, rhyddhau neu wneud newidiadau i'ch cytundeb – gweler tudalen 4 i 7.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/work/losing-your-job/working-reduced-hours-as-an-alternative-to-redundancy

2. Gwybod eich hawliau colli swydd

Os ydych yn wynebu colli eich swydd, gwnewch yn siŵr bod eich diswyddiad yn deg, a oes gennych hawl i dâl colli swydd a gwybod pa hawliau eraill sydd gennych – gweler tudalen 8 i 16.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/work/losing-your-job/your-legal-rights-when-facing-redundancy

3. Gwneud y gorau o'ch arian

Gwnewch y gorau o'ch tâl colli swydd, adolygwch eich cyllideb, gwiriwch pa yswiriant a buddiannau y gallech eu hawlio a threfnwch arian eich cartref – gweler tudalen 16 i 34.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/work/losing-your-job/review-your-budget-after-a-drop-in-income

4. Gofyn am help gyda benthyciadau a dyledion

Gallwch dderbyn cyngor diduedd am ddim os ydych yn wynebu problemau gyda'ch dyledion ac yn poeni pa filiau i'w blaenoriaethu a sut i ddiogelu eich cartref – gweler tudalen 35 i 39.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/work/losing-your-job/what-to-do-about-debt-if-you-lose-your-job

5. Rhowch amser i chwilio am swydd

Rhowch amser i wella eich CV a'ch sgiliau cyfnewid.

Dylech ystyried diweddaru eich sgiliau a dysgu sgiliau newydd, neu ddechrau eich busnes eich hun hyd yn oed – gweler tudalen 40 i 45.

A man with dark hair and glasses, wearing a blue denim shirt over a white t-shirt, is focused on working on a bicycle wheel. He is using a tool, possibly a spoke wrench, to adjust the spokes. The background is slightly blurred, showing more of the bicycle and some indoor lighting.

Trafod y mater

Os oes gennych bartner, teulu neu ffrind y gallwch ymddiried ynddynt, rhannwch eich pryderon am eich swydd gyda hwy. Efallai na fyddwch yn datrys y problem ond bydd yn gwneud lles i chi rannu'r problem.

Ac os yw pryderon am eich swydd yn rhoi straen ar berthnasau, chwiliwch am eich canolfan neu linell gymorth lleol Relate yn relate.org.uk/find-your-centre

Dewisiadau eraill i golli swydd

Mae'n anodd parhau i weithio mewn ffordd arferol pan fydd sibrydion am golli swyddau. Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau dechrau chwilio am swydd arall a gadael cyn i unrhyw gyhoeddiad gael ei wneud am golli swyddi.

Cyn i chi wneud hynny, gwnewch yn siŵr na fyddwch yn colli allan ar hawliau colli swydd pwysig – gweler tudalen 8.

Os yw'r busnes yr ydych yn gweithio iddo yn profi dirywiad dros dro, efallai y bydd eich cyflogwr yn cynnig dewisiadau eraill i golli swydd.

Er enghraifft, efallai y byddant yn gofyn i chi:

- leihau nifer y dyddiau neu'r oriau yr ydych yn eu gweithio bob wythnos (a elwir yn gweithio llai o oriau)
- gymryd dyddiau penodol i ffwrdd (a ellwir yn diswyddo dros dro)
- wneud swydd hollol wahanol
- newid eich cytundeb.

Beth bynnag yw'r cynnig, mae'n werth ystyried a chymryd cyngor gan eich undeb llafur neu'ch cynrychiolydd yn y gwaith, os oes gennych un, cyn gwneud eich penderfyniad.

Os nad ydych yn aelod o undeb llafur neu gymdeithas staff, gallech drafod eich dewisiadau gyda chynghorydd yn eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, neu Asiantaeth Perthnasoedd Llafur (LRA) yng Ngogledd Iwerddon.

Beth i'w wneud os bydd eich cyflog yn cael ei ostwng

Chwilio am waith arall. Ar yr amod bod eich cytundeb yn caniatáu hynny a bod eich cyflogwr yn cytuno iddo, efallai y gallwch wneud swydd arall wrth fod ar ddiswyddiad dros dro neu weithio llai o oriau. Ond os byddwch yn gwneud hynny, ni allwch derbyn tâl gwarantedig statudol hefyd – gweler tudalen 5.

Hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth. Efallai y gallwch hawlio Lwfan Ceisio Gwaith neu'r Credyd Cynhywsol – a bydd-daliadau eraill y wladwriaeth – os ydych yn colli swydd dros dro neu yn gweithio llai o oriau. Defnyddiwch ein Cyfrifiannell Budd-daliadau i weld a ydych yn gymwys neu gysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon). Am ragor o wybodaeth, gweler tudalen 21, neu *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Gweithio llai o oriau

Mae hyn yn golygu bod eich oriau yn cael eu cwtdogi, felly byddwch chi'n gweithio llai o oriau bob dydd neu lai o ddyddiau bob wythnos. Mae gennych chi hawl i dâl llawn am yr oriau a weithiwyd, oni bai fod eich contract yn dweud y gellir gofyn i chi gymryd gwyliau heb dâl. Gwiriwch a yw eich cytundeb cyflogaeth eisoes yn caniatáu ar gyfer hyn.

Os nad yw'n caniatáu ar gyfer hyn, bydd y gymdeithas staff neu eich undeb llafur, os oes gennych un, fel arfer yn gorfod cytuno ar y cytundeb.

Os nad oes gennych gymdeithas staff neu undeb llafur, chi fydd yn gorfod penderfynu derbyn hyn ai peidio, oni bai bod eich cytundeb yn dweud yn wahanol.

Efallai y bydd gennych hawl hefyd i daliad gwarantedig, ar yr amod nad ydych yn cytuno i newid eich oriau gwaith yn barhaol. Dylech drafod hyn gyda'ch cyflogwr.

Diswyddo dros dro

Mae hyn yn golygu bod i ffwrdd o'r gwaith am o leiaf un diwrnod. Disgwylir hyn i fod yn drefn dros dro ac mae'n golygu y gofynnir i chi beidio â mynd i'r gwaith. Dylech chi dderbyn tâl llawn oni bai bod eich cytundeb yn caniatáu diswyddiadau dros dro di-dâl neu ar dâl gostyngol.

Serch hynny, rydych yn dal yn gyflogedig. Bydd eich cyflogwr ond yn gallu gofyn i chi wneud hyn os bydd eich cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny, neu os byddwch yn cytuno i newid eich contract.

Tâl gwarantedig

Mae'r isafswm cyfreithiol y mae gennych chi hawl i'w dderbyn os ydych chi'n cael eich diswyddo dros dro neu orfodi i weithio llai o oriau yn cael ei alw'n 'tâl gwarantedig statudol'. Uchafswm y tâl hwn yw £35 y dydd hyd at uchafswm o £175 am bum diwrnod mewn unrhyw gyfnod o dri mis. Mae'r swm yn cael ei leihau pro rata os ydych yn gweithio'n rhan amser.

Am faint o amser y gall hyn barhau?

Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y gallwch gael diswyddiad dros dro neu orfodi i weithio llai o oriau. Mae faint o amser y gall hyn barhau'n dibynnu ar yr hyn y cytunwyd arno yn eich cytundeb cyflogaeth. Fodd bynnag, os yw hyn wedi parhau am bedair wythnos yn olynol – neu chwe wythnos sydd ddim yn olynol mewn cyfnod o 13 wythnos – efallai y bydd hawl gennych i hawlio tâl colli swydd – gweler tudalen 13.

Newidiadau i'ch cytundeb

Efallai y bydd eich cyflogwr am newid telerau eich cytundeb – er enghraifft, lleihau eich cyflog neu newid eich oriau i gyflogaeth rhan amser. Ni allant wneud hyn heb gael eich caniatâd chi oni bai bod eich cytundeb yn dweud y gallant wneud hynny. Gellir rhoi caniatâd yn ysgrifenedig neu ar lafar.

Dylech drafod eich opsiynau gyda'ch undeb llafur neu gynrychiolydd staff, eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol neu Acas (yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon).

Gwaith arall

Cyn cynhoeddi unrhyw golli swyddi, dylai eich cyflogwr geisio cynnig swydd addas arall i chi, neu ganiatáu i chi wneud cais am swyddi eraill, hyd yn oed os nad yw'r rolau hyn yn addas.

Os cewch chi gynnig swydd arall addas, gallwch roi cynnig ar y swydd am gyfnod prawf o bedair wythnos, neu efallai'n hwy os oes angen hyfforddiant arnoch. Bydd hyn yn dibynnu ar unrhyw wahaniaethau rhwng eich hen swydd a'ch swydd newydd. Os bydd y cyfnod prawf yn llwyddiannus, bydd eich cyflogaeth yn parhau, ac ni fydd hawl gennych i unrhyw dâl colli gwaith statudol.

Os byddwch chi'n penderfynu nad yw'r swydd yn addas, ni fydd eich hawliau i dâl colli swydd statudol yn cael eu heffeithio cyn belled â'ch bod yn rhoi rhybudd o fewn y cyfnod prawf. Os byddwch yn gwrthod swydd arall addas heb reswm, gallech golli eich hawl i dâl colli swydd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Acas. Mae Acas yn sefydliad sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ac sy'n darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am hawliau cyflogaion. Maent hefyd yn datrys anghydfodau rhwng cyflogaion a'u cyflogwyr. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith. Gweler **Cysylltiadau defnyddiol** ar dudalen 46.

Ymddeoliad cynnar fel dewis arall i golli swydd

Mae derbyn ymddeoliad cynnar yn wahanol iawn i golli eich swydd, nid oes gennych unrhyw hawliau colli swydd ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw dâl colli swydd.

Os cewch chi gynnig ymddeol yn gynnar a'ch bod yn penderfynu ei gymryd, rydych yn debygol o dderbyn pensiwn llai nag y bydech wedi ei gael pe bydech wedi gweithio hyd at oedran ymddeol arferol.

Mae'r effaith y bydd hyn yn cael ar eich pensiwn yn dibynnu ar delerau eich pecyn ymddeol yn gynnar a'r math o gynllun pensiwn sydd gennych.

Mae pecynnau ymddeol yn gynnar yn aml yn cynnwys cymhellion sy'n gwella'r pensiwn a gewch, er enghraifft:

- cyfandaliad i'ch cronfa bensiwn i gynyddu ei werth os ydych mewn cynllun cyfraniadau gweithle, neu
- buddiannau pensiwn sy'n cael eu cyfrifo fel pe bydech wedi gweithio i'ch oedran ymddeol arferol os ydych mewn cynllun cyfraniadau gweithle.

Am fwy o wybodaeth am fanteision ac anfanteision ymddeol yn gynnar, ewch i moneyhelper.org.uk/ymddeol-yn-gynnar

Rydych hefyd yn gallu archebu ein llyfryn am ddim 'Eich pensiwn: eich dewisiadau' yn moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim

Gallwch dderbyn cyngor diduedd ac am ddim am opsiynau pensiynau ar ôl ymddeol. Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise neu ffoniwch 0800 138 3944.

Os ydych yn iau na 50 oed, ewch i moneyhelper.org.uk/pensiynau neu ffoniwch 0800 011 3797



Gwybod eich hawliau colli swydd

Er bod colli swydd yn fath o ddiswyddiad, os byddwch yn colli eich swydd nid yw'n golygu eich bod wedi gwneud unrhyw beth o'i le ac nid yw unrhyw un yn cwestiynu eich gallu i wneud eich swydd.

Y rhesymau cyffredin pam y gallai eich cyflogwr eich diswyddo yw:

- mae angen iddynt leihau eu costau
- mae angen iddynt derfynu'r busnes
- maent yn adleoli
- nid oes angen am y gwaith yr ydych yn ei wneud bellach.

Ystyrir rhain yn rhesymau teg dros ddiswyddo. Gall eich cyflogwr eich diswyddo, ar yr amod eu bod yn dilyn proses ddethol deg hefyd.

Os na fydd eich cyflogwr yn dilyn proses deg ar gyfer diswyddo neu os nad oes rheswm dilys dros golli swydd, gallech chi hawlio am ddiswyddiad annheg i dribiwnlys cyflogaeth os ydych chi wedi gweithio i'ch cyflogwr am ddwy flynedd neu fwy – gweler tudalen 10.

Mewn rhai achosion, er enghraifft, gwahaniaethu neu os byddwch yn meddwl eich bod wedi colli swydd am rywbeth yr ydych chi wedi ei wneud, fel codi pryderon am hawliau cyflogaeth neu chwythu'r chwiban, gallwch wneud hawliad waeth am ba hyd yr ydych chi wedi gweithio i'ch cyflogwr. Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi colli'ch swydd am unrhyw un o'r rhesymau hyn, dylech ofyn am gyngor cyn gynted â phosibl – gweler tudalen 11.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr drafod beth fydd yn digwydd gyda phawb perthnasol. Dylent ddweud wrthych pam eu bod yn cynnig diswyddiadau a sut effaith y bydd yn ei chael ar bobl. Am fwy o wybodaeth, ewch i [gov.uk/redundancy-your-rights/consultation](https://www.gov.uk/redundancy-your-rights/consultation)

Apelio yn erbyn penderfyniad colli swydd

Cam 1 – Gwneud apel yn ysgrifenedig i'ch cyflogwr.

Os ydych yn credu bod y penderfyniad i chi golli swydd yn annheg, esboniwrch pam eich bod yn credu bod y dewis hwn yn annheg a'r hyn yr ydych eisiau i'ch cyflogwr ei wneud i ddatrys y sefyllfa. Os na fydd hyn yn datrys y broblem, gallwch wneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

Cam 2 – Cymodi cynnar.

Cyn y gallwch wneud hawliad tribiwnlys, mae'n rhaid i chi hysbysu Acas yn **acas.org.uk/early-conciliation**, neu Asiantaeth Cysylltiadau Llafur (LRA) os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon yn **lra.org.uk**. Bydd Acas yn cynnig cysylltu â'ch cyflogwr i geisio datrys yr achos. Nid oes rhaid i chi na'ch cyflogwr gytuno i hyn.

Cam 3 – Ewch â'ch cyflogwr i dribiwnlys cyflogaeth.

Ar ôl i chi dderbyn tystysgrif cymodi cynnar gan Acas, neu LRA yng Ngogledd Iwerddon, gallwch wneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cyflogi am o leiaf ddwy flynedd – oni bai eich bod yn gwneud hawliad am wahaniaethu a/neu ddiswyddiad annheg awtomatig.

Ar hyn o bryd, nid oes ffioedd am wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth.

Pwynt pwysig

Os ydych yn credu eich bod wedi'ch diswyddo yn annheg, gofynnwch am gyngor cyn gynted â phosibl gan eich undeb llafur neu gynrychiolydd cyflogeion, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Acas neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46. Mae cyfyngiad amser llym ar gyfer gwneud hawliad.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae'n rhaid i chi hysbysu Acas cyn gwneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth.

A yw eich diswyddiad yn deg?

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr sicrhau bod ganddynt reswm teg dros eich diswyddo, nid oherwydd pwy ydych chi neu rywbeth yr ydych wedi'i wneud, megis codi pryderon am y gweithle. Mae'n rhaid iddynt ddilyn proses deg pan fyddant yn dewis pwy fydd yn colli swyddi.

A yw'r broses diswyddo yn deg?

Mae prosesau gwahanol ar gyfer diswyddo'n deg. Mae'r broses y bydd eich cyflogwr yn ei dilyn yn dibynnu ar:

- faint o bobl sy'n gweithio i'ch cyflogwr
- nifer y swyddi y maent yn bwriadu eu colli
- a oes gan y cwmni bolisi diswyddo
- unrhyw gytundeb sydd mewn grym gydag undeb llafur.

Dylai eich cyflogwr bob amser:

- trafod gyda chi i weld a oes ffordd o'ch osgoi chi yn colli swydd
- caniatáu i gydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur fynychu unrhyw gyfarfodydd gyda chi
- ysgrifennu atoch ynglŷn â'ch hawl i gael tâl colli swydd statudol (gweler tudalen 13)
- rhoi cyfle i chi apelio yn erbyn y penderfyniad
- ystyried a oes unrhyw swyddi eraill addas (gweler tudalen 6).

Colli swydd a gwahaniaethu

Os ydych yn credu mai'r wir reswm am pam eich bod yn cael eich diswyddo yw unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- oedran
- anabled
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol,

gallech wneud hawliad ar sail gwahaniaethu i dribiwnlys cyflogaeth waeth pa mor hir yr ydych wedi'ch cyflogi. Efallai y gallwch hefyd wneud hawliad am ddiswyddo annheg os ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr am ddwy flynedd neu fwy.

Diswyddo annheg awtomatig

Mae'n anghyfreithlon i'ch cyflogwr eich diswyddo am resymau penodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- beichiogrwydd neu famolaeth
- rhesymau teuluol, gan gynnwys cymryd absenoldeb rhiant neu i ofalu am ddibynyddion
- perthyn i undeb llafur neu weithredu fel cynrychiolydd staff
- chwythu'r chwiban ar arferion gwael neu faterion iechyd a diogelwch
- gweithio'n rhan amser neu ar gytundeb tymor penodol
- oherwydd eich bod wedi gofyn am oriau gweithio hyblyg
- oherwydd eich bod wedi mynegi pryderon ynglŷn â hawliau cyflogaeth statudol, gan gynnwys problemau o ran cyflog, oriau gwaith neu wyliau blyneddol.

Os ydych yn credu y gallai hyn fod y gwir reswm dros golli eich swydd, efallai y gallwch wneud hawliad bod eich diswyddiad yn annheg awtomatig. Gallwch wneud hawliad waeth pa mor hir yr ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr.



Staff mewn, staff allan

Mae gan eich cyflogwr hawl cyfreithiol i gyflogi staff newydd, hyd yn oed os ydynt yn diswyddo pobl. Efallai y byddant yn cyflogi rhywun i wneud swydd wahanol lle'r ydych chi'n gweithio, neu i wneud eich swydd mewn lleoliad gwahanol. Os ydych yn credu y dylech fod wedi cael cynnig swydd yn y strwythur newydd, neu os ydych yn credu eich bod yn colli swydd yn annheg, darllenwch eich cytundeb cyflogaeth. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch am gyngor gan gynrychiolydd undeb, Acas (yr Asiantaeth Cysylltiadau Llafur yng Ngogledd Iwerddon) neu eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Ymgynghoriad colli swydd

Y broses a'r amserlen colli swydd

Mae'r broses y bydd rhaid i'ch cyflogwr ei dilyn yn dibynnu ar nifer y diswyddiadau a gynllunnir ac mae'n cynnwys cyfnod o 90 diwrnod. Gweler y tabl isod:

Nifer o gyflogeion fydd yn colli eu swyddi	Y math o ymgynghoriad sydd ei angen	Amser ymgynghori
Llai nac 20 o gyflogeion	Mae angen i'ch cyflogwr ymgysylltu â chi yn unigol yn unig..	O fewn amser rhesymol.
20–99 o gyflogeion	Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gynnal ymgynghoriad ar y cyd. Mae hyn yn golygu ymgynghori â'ch cynrychiolydd undeb os oes 'na un neu, os nad oes gennych un, gyda'ch cynrychiolydd/cynrychiolwyr cyflogeion dewisol. Mae'n arfer da iddynt ymgynghori â phob un ohonoch yn unigol hefyd. Os bydd y cyflogeion yn penderfynu i beidio â dewis cynrychiolydd, yna cynhelir ymgynghoriad gydag unigolion yn unig.	Isafswm o 30 diwrnod cyn y diswyddiad cyntaf.
100+ o gyflogeion	Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gynnal ymgynghoriad ar y cyd. Mae hyn yn golygu ymgynghori â'ch cynrychiolydd undeb os oes 'na un neu, os nad oes gennych un, gyda'ch cynrychiolydd/cynrychiolwyr cyflogeion dewisol. Mae'n arfer da iddynt ymgynghori â phob un ohonoch yn unigol hefyd. Os bydd y cyflogeion yn penderfynu i beidio â dewis cynrychiolydd, yna cynhelir ymgynghoriad gydag unigolion yn unig.	Isafswm o 45 diwrnod cyn y diswyddiad cyntaf.

Ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben, mae'n rhaid eich bod wedi derbyn y cyfnod rhybudd statudol o leiaf, os bydd eich swydd yn cael ei cholli. Bydd hyn yn amrywio o 1 i 12 wythnos yn dibynnu ar y cyfnod o amser yr ydych wedi'ch cyflogi. Fodd bynnag, efallai y bydd eich cyfnod rhybudd yn hwy, yn dibynnu ar beth sy'n cael ei nodi yn eich cytundeb cyflogaeth. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd eich swydd yn dod i ben.

Tâl colli swydd

Efallai y bydd gennych hawl i dderbyn tâl colli swydd statudol – cyfandaliad i'ch digolledu am golli eich swydd. Dyma'r isafswm cyfreithiol y mae'n rhaid i'ch cyflogwr ei dalu. Efallai y bydd rhai cyflogwyr yn cynnig pecynnau mwy hael fel rhan o'r cytundeb cyflogaeth. Gelwir hyn yn dâl colli swydd cytundebol.

Pwy gall dderbyn tâl colli swydd statudol?

Gallai fod hawl gennych i dâl colli swydd statudol os ydych chi wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf ddwy flynedd. Os ydych yn gweithio ar delerau achlysurol, neu eich bod yn weithiwr asiantaeth neu dros dro, mae'n debyg na fyddwch yn gymwys i dderbyn tâl colli swydd.

Os ydych chi ar gytundeb dim oriau h.y. os ydych chi 'ar alwad' heb unrhyw oriau penodol neu amserlen ddiffiniedig, mae'n bosibl y byddwch chi'n derbyn tâl colli swydd os ydych chi'n cael eich ymdrin fel gweithiwr. Gofynnwch am gyngor gan Acas (neu'r Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith yng Ngogledd Iwerddon) neu'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth Lleol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Pwynt pwysig

Gallai fod hawl gennych i dâl colli swydd statudol os ydych chi wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf ddwy flynedd.

Faint o dâl fyddwch chi'n ei gael?

Bydd faint o dâl colli swydd statudol y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych chi wedi gweithio i'ch cyflogwr, beth yw eich oedran, a faint o gyflog ydych chi'n ei gael.

Yn ôl y gyfraith, mae gennych hawl i:

- hanner wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth pan oeddech dan 22 oed
- un wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth pan oeddech chi rhwng 22 a 41 oed, ac
- wythnos a hanner o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth ar ôl eich pen-blwydd yn 41 oed.

Mae'r uchafswm o dâl colli swydd statudol y gallwch ei dderbyn yn 2023/24 yn seiliedig ar uchafswm o 20 mlynedd o wasanaeth a chyflog wythnosol o hyd at £643 (yng Ngogledd Iwerddon £669).

Mae'r uchafswm o dâl colli swydd y gallwch ei dderbyn wedi'i gapio ar £19,290 (yng Ngogledd Iwerddon £20,070) hyd yn oed os yw'ch cyflog yn uwch neu bod eich hyd o wasanaeth yn hwy na hyn.

Beth os bydd eich cyflogwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu?

Os yw busnes eich cyflogwr wedi'i derfynu neu eich bod yn methu eich talu chi, bydd Gwasanaeth Taliadau Colli Swyddi y llywodraeth yn talu'r swm statudol yn lle hynny. Dylai'r cwmni ansolfedd sy'n ymdrin â'ch cyflogwr roi ffurflen RP1 i chi wneud hawliad.

I ddechrau hawlio am daliad colli swydd, ewch i **gov.uk/claim-redundancy**

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Ansolfedd os na all eich cyflogwr dalu eich taliad diswyddo statudol oherwydd ei fod yn fethdalwr drwy ffonio 0330 331 0020.

Am help a chynghor am golli swydd, cysylltwch ag Acas yn **acas.org.uk** neu ffoniwch 0300 123 1100.

Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith (LRA) yn **lra.org.uk**, neu ffoniwch 03300 552 220.

I weld a oes gennych hawl i dâl colli swydd statudol a faint allech chi ei derbyn, defnyddiwch y cyfrifiannell tâl colli swydd **gov.uk/calculate-your-redundancy-pay**

Enghraifft

Mae Michelle yn 48 oed. Mae wedi gweithio i'w chyflogwr am 22 o flynyddoedd ac mae'n ennill £700 yr wythnos. Mae ganddi hawl i dâl colli swydd statudol yn seiliedig ar uchafswm o £643 yr wythnos am 20 mlynedd o wasanaeth. Bydd Michelle yn derbyn £13,418.50 sydd wedi'i gyfrifo fel â ganlyn:

Cam 1

1.5 wythnos x 7 mlynedd o wasanaeth pan oedd hi'n 41 oed ac yn hŷn
= 10.5 wythnos

Cam 2

1 wythnos x 13 mlynedd o wasanaeth pan oedd hi rhwng 22 oed a 41 oed
= 13 wythnos

Cam 3

10.5 wythnos + 13 wythnos
= 23.5 wythnos x £643

Cyfanswm

£15,110.50 o dâl colli swydd

Treth a tâl colli swydd

Tâl colli swydd yw'r arian y mae'ch cyflogwr yn ei gynnig i chi wrth dynnu eich swydd oddi ar y sefydliad. Nid ydych yn talu treth ar unrhyw dâl colli swydd hyd at £30,000. Mae'r £30,000 hyn ond yn berthnasol i'ch tâl colli swydd ac nid i'ch cyflog chi.

Os byddwch yn derbyn mwy na £30,000, bydd rhaid i chi dalu treth ar y cyfradd uchaf ar y swm dros £30,000.

Os byddwch yn derbyn unrhyw fuddiannau nad ydynt yn arian fel rhan o'ch pecyn colli swydd, megis car cwmni neu gyfrifiadur, bydd hyn yn cael ei gyfrifo fel gwerth arian parod ac yn cael ei ychwanegu at eich tâl colli swydd at ddibenion treth.

Felly, er enghraifft, os byddwch yn derbyn car cwmni sy'n werth £10,000 a'ch bod yn derbyn tâl colli swydd o £25,000, bydd eich pecyn colli swydd yn werth £35,000 at ddibenion treth. Bydd rhaid i chi dalu treth ar y £5,000 sydd dros y terfyn di-dreth o £30,000.

Tâl yn lle cyfnod rhybudd (PILON)

Bellach, mae pob taliad PILON, yn contractiol neu ddim, yn destun didyniadau treth ac yswiriant gwladol.

Mae hyn yn golygu bod yr holl gyflog sylfaenol yr ystyriwyd eich bod wedi'i dderbyn yn cael ei drethu yn yr un ffordd ni waeth a oeddech yn gweithio yn ystod eich cyfnod rhybudd ai peidio.

Byddai taliadau diswyddo uwchben yr hyn a ystyrir yn PILONs yn parhau i elwa o'r eithriad £30,000 o ran treth a chyfraniadau yswiriant gwladol.

Dylech neilltuo digon o arian i dalu am unrhyw dreth ychwanegol

Pan fyddwch yn cael eich tâl colli swydd, fel arfer bydd eich cyflogwr eisoes wedi didynnu treth ohono. Ond, oherwydd bod eich treth yn cael ei chyfrifo'n flynyddol, mae'n gyffredin iawn y bydd gormod neu ddim digon o dreth wedi'i didynnu.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei dalu, felly mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi talu'r swm cywir ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Os ydych wedi talu gormod o dreth, bydd angen i chi hawlio ad-daliad. Os nad ydych wedi talu digon, bydd rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth.

Gofynnwch am help a chyingor gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Gweler Cysylltiadau defnyddiol ar dudalen 46.

Dylech gofio y gallai swm y taliad olygu y byddwch yn dod yn drethdalwr cyfradd uwch neu ychwanegol am y flwyddyn, hyd yn oed os ydych yn drethdalwr cyfradd sylfaenol fel arfer.

Taliadau eraill pan fyddwch yn gadael

Gallwch dderbyn taliadau cyfandaliad eraill yn eich pecyn cyflog olaf pan fyddwch yn cael eich diswyddo. Os yw'r rhain yn ddyledus dan eich contract gwaith (yn hytrach nag fel iawndal am golli eich swydd), byddant yn cael eu trethu yn yr un ffordd â'ch cyflog arferol.

Gall taliadau gynnwys unrhyw rai o'r canlynol:

	Sut mae hyn yn gweithio?	Sut mae'n cael ei drethu?
Cyflog yn ddyledus a thaliadau bonws	Dyma eich cyflog hyd at y diwrnod pan fydd eich cytundeb yn dod i ben ac unrhyw daliadau bonws sy'n ddyledus i chi dan eich cytundeb cyflogaeth.	Bydd cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol wedi'u didynnu o'r taliadau hyn yn y ffordd arferol cyn i chi eu derbyn.
Tâl yn lle cyfnod rhybudd	Telir hyn pan na fydd eich cyflogwr am i chi weithio eich cyfnod rhybudd ac mae'n cynnig cyfandaliad i chi yn lle hynny. Gweler tudalen 15.	Mae tâl yn lle cyfnod rhybudd yn cyfrif fel cyflog trethadwy ac felly bydd treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'u didynnu.
Tâl gwyliau dyledus	Gall eich cyflogwr ofyn i chi gymryd peth gwyliau yn ystod eich cyfnod rhybudd colli swydd. Bydd ond yn rhaid i chi wneud hyn os bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi bod rhaid i chi wneud hyn. Fel arall, chi sy'n cael penderfynu. Efallai y byddwch yn penderfynu bod yr arian yn fwy defnyddiol os ydych ar fin dod yn ddi-waith.	Bydd cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol wedi'u didynnu o'r taliadau hyn yn y ffordd arferol cyn i chi eu derbyn.

Penderfynu beth i'w wneud gyda'ch pensiwn

Os ydych yn rhan o bensiwn gweithle, mae angen i chi benderfynu beth i'w wneud gyda'ch pensiwn ar ôl i chi adael. Mae'r dewisiadau sydd ar gael yn dibynnu ar pa fath o gynllun yw e.

I ganfod pa fath o gynllun pensiwn yr ydych yn rhan ohono a pha hawliau sydd gennych, cysylltwch â'ch adran pensiynau neu adnoddau dynol yn y gwaith. I gael gwybodaeth gyffredinol am bensiynau, yn cynnwys diffiniadau o'r gwahanol fathau o gynlluniau pensiwn, gweler: **moneyhelper.org.uk/pensiynau**

Pensiwn gweithle

Os byddwch yn cael eich diswyddo, bydd angen i chi wneud un o'r canlynol fel arfer:

- Gadael eich pensiwn gyda'ch cyflogwr a phan fyddwch yn ymddeol byddwch yn derbyn cyflog ymddeol o'r cynllun hwnnw. Dyma'r dewis gorau fel arfer os ydych yn perthyn i gynllun pensiwn gweithle.
- Trosglwyddo eich pot pensiwn. Gallech wneud hyn i gynllun cyflogwr newydd pan fyddwch yn dod o hyd i swydd newydd, os bydd y cynllun newydd yn caniatáu hynny, neu i'ch pensiwn personol eich hun. Dylech gymharu'r costau a'r termau yn ofalus gyda chynllun eich cyflogwr blaenorol a byddwch yn ofalus rhag ildio unrhyw fuddiannau diffiniedig.

- Os ydych chi'n ddigon hen, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu ymddeol yn gynnar – gweler tudalen 7.

Ystyriwch ofyn am gyngor proffesiynol gan gynghorydd ariannol a all siarad â chi am eich opsiynau – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol (NEST)

Mae NEST yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Os yw eich cyflogwr wedi'ch cofrestru chi gyda NEST, er eich bod yn gadael y swydd, byddwch yn parhau i fod yn aelod o NEST a gallwch barhau i gyfrannu ynddo (ond bydd cyfraniadau eich cyflogwr yn dod i ben).

Mae eich cyfraniadau i NEST yn hyblyg ac efallai y byddwch am eu hatal os yw arian yn dynn ar hyn o bryd. Bydd taliadau'n dod i ben fel mater o drefn os caiff ei dynnu o'ch cyflog. Ond gallwch barhau i gadw eich pot pensiwn gyda NEST.

Pensiwn personol

Efallai eich bod yn perthyn i gynllun gweithle sy'n bensiwn personol (fel arfer bydd yn bensiwn personol grŵp neu'n gynllun cyfrandeiliaid) neu efallai bod gennych bensiwn personol eich hun. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cysylltu i chi, nid i swydd benodol.

Mae hyn yn golygu, wrth adael swydd, y gallwch barhau i dalu i mewn i'r cynllun os byddwch yn dymuno gwneud hynny, ond bydd eich cyflogwr yn rhoi'r gorau i gyfrannu. Os oedd eich cyflogwr wedi negodi termau arbennig, megis taliadau is, efallai na fydd y rhain ar gael i chi bellach.



A wyddech chi?

Gan ddibynnu ar y math o gynllun, os ydych wedi bod yn aelod o gynllun cwmni am lai na dwy flynedd, efallai y bydd gennych ddewis i gael ad-daliad o'r cyfraniadau yr ydych wedi'u talu (ond nid unrhyw gyfraniadau a dalwyd gan eich cyflogwr.) Didynnir treth o'r ad-daliad.

Gadael gwaith

Ar ôl i chi gael gwybod y byddwch yn colli eich swydd, mae gennych nifer o hawliau i'ch helpu i addasu a dod o hyd i waith newydd. Mae gennych hawl hefyd i isafswm cyfnod o rybudd.

Cyfnod rhybudd

Gweler tabl isod am yr isafswm cyfnod rhybudd y dylech ei gael. Fodd bynnag, os yw eich cytundeb cyflogaeth yn nodi bod gennych hawl i gyfnod hwy o rybudd hwy, mae'n rhaid i'ch cyflogwr gydymffurfio â hynny.

Gwiriwch hyn drwy ddarllen eich cytundeb.

Amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer chwilio am waith neu hyfforddiant

Mae gennych hawl i gael amser i ffwrdd o'r gwaith i chwilio am waith neu ymgymryd â hyfforddiant, ar yr amod eich bod wedi gweithio'n barhaus i'ch cyflogwr am o leiaf dwy flynedd.

Rhaid bod yr amser y gallwch ei gymryd fod yn rhesymol ac mae gennych hawl i hyd at ddwy ran o bump (40%) o gyflog wythnos tra byddwch i ffwrdd. Er enghraifft, os ydych yn gweithio wythnos pum niwrnod a'ch bod yn cymryd dau ddiwrnod i ffwrdd i fynd i gyfweliadau, yna bydd eich cyflogwr yn eich talu chi am yr amser hwn. Os byddwch yn cymryd cyfanswm o bedwar diwrnod i ffwrdd, efallai y byddwch ond yn cael eich talu am y ddau ddiwrnod cyntaf. Mae rhai cyflogwyr yn fwy hael na rhai eraill, felly mae'n werth trafod hyn wrth negodi eich telerau colli swydd.

Isafswm cyfnod o rybudd

Os ydych wedi bod yn gyflogedig:	Yr isafswm cyfnod o rybudd y dylech ei derbyn:	Enghraifft:
Am o leiaf 1 mis a hyd at 2 flynedd	1 wythnos	Os ydych wedi'ch cyflogi am 18 mis, dylech dderbyn o leiaf un wythnos o gyfnod rhybudd.
Am fwy na 2 flynedd a hyd at 12 mlynedd	1 wythnos o gyfnod rhybudd am bob blwyddyn a weithiwyd	Os ydych wedi'ch cyflogi am bum mlynedd, dylech dderbyn o leiaf pum wythnos o gyfnod rhybudd.
Am fwy na 12 mlynedd	12 wythnos o gyfnod rhybudd	Os ydych wedi'ch cyflogi am fwy na 12 mlynedd, dylech dderbyn o leiaf 12 wythnos o gyfnod rhybudd.

Absenoldeb garddio

Efallai y bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi weithio eich cyfnod o rybudd colli swydd i ffwrdd o'r gwaith (a elwir yn 'absenoldeb garddio'). Rydych yn parhau i fod yn gyflogedig yn gyfreithiol felly mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau eich cytundeb, megis unrhyw is-gymalau cyfrinachedd. Gall eich cyflogwr gynnig absenoldeb garddio i chi oherwydd, er enghraifft, bod gennych fynediad at wybodaeth gyfrinachol neu gwsmeriaid, neu maent am rywfaent o amser i fynd heibio cyn i chi ddechrau gweithio i gystadleuwr.

Os ydych ar absenoldeb garddio, gall eich cyflogwr eich galw yn ôl i'r gwaith os bydd angen. Yn ystod y cyfnod hwn byddwch yn derbyn eich cyflog a'ch buddiannau arferol ond ni chewch ddechrau swydd gyda chyflogwr newydd.

Awgrym da

Os cewch chi gynnig swydd a'ch cyflogwr newydd am i chi ddechrau cyn i'ch cyfnod rhybudd ddod i ben, siaradwch â'ch cyflogwr presennol. Dylech fod yn ymwybodol y gallech golli eich hawl i'ch tâl colli swydd a/ neu eich tâl cyfnod rhybudd.

Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch am gyngor gan eich undeb llafur, Acas neu, yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Rhestr wirio diwrnod olaf

Ar eich diwrnod olaf yn y gwaith, dylech dderbyn y canlynol:

Manylion eich trefniadau pensiwn

Geirdaon gan eich cyflogwr

Llythyr yn nodi dyddiad eich diswyddiad

Eich ffurflen dreth P45 (i'w roi i'ch cyflogwr newydd fel eich bod yn cael eich trethu yn gywir). Os na fydd eich cyflogwr yn rhoi eich ffurflen P45 i chi ar eich diwrnod olaf, rhaid iddo ei darparu o fewn amser rhesymol. Efallai y byddwch yn cytuno, er enghraifft, i'w derbyn ar eich diwrnod cyflog terfynol.

Unrhyw dâl colli swydd, cyflog, tâl gwyliau ac unrhyw arian arall sy'n ddyledus i chi. Bydd hyn fel arfer yn digwydd ar eich diwrnod cyflog nesaf.

Datganiad ysgrifenedig yn dangos sut mae eich tâl colli swydd wedi'i gyfrifo.

Hawliadau a budd-daliadau'r wladwriaeth

Cyn gynted ag y bydd eich gwaith yn dod i ben, dylech gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon. Asiantaethau'r llywodraeth yw'r rhain sy'n gyfrifol am ymdrin â hawliadau budd-daliadau.

Credydau Yswiriant Gwladol

Bydd y swm o Bensiwn y Wladwriaeth y cewch chi a'ch hawl i rai budd-daliadau gwladol eraill yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Gallwch dderbyn Credydau Yswiriant Gwladol yn awtomatig i gadw'n gyfredol â'ch hawl i'r budd-daliadau hyn os ydych chi'n ddiwaith ac wrthi'n edrych am waith wrth hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) neu fudd-daliadau prawf modd eraill.

Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)

Os ydych chi wedi colli'ch gwaith, y prif fudd-daliad y gallwch chi ei hawlio yw JSA. Serch hynny, mae hyn yn dibynnu ar eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac amgylchiadau'r cartref.

Lwfans Ceisio Gwaith Newydd

Os ydych chi wedi gwneud digon o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn ystod y ddwy flynedd dreth lawn ddiwethaf, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu derbyn y math newydd o Lwfans Ceisio Gwaith.

Gallwch dderbyn hwn am hyd at chwe mis a chaiff ei dalu i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd bob pythefnos.

Os ydych chi angen cymorth gyda phethau megis costau tai neu fagu plant, bydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân am Gredyd Cynhwysol - gweler tudalen 22.

Hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

I fod yn gymwys am y math newydd o Lwfans Ceisio Gwaith, rhaid i chi fod yn iau nac oed Pensiwn Gwladol ac ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith. Fel arfer byddwch chi'n gallu hawlio hwn os ydych chi wedi bod yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogai am y ddwy flwyddyn dreth lawn ddiwethaf (mae blwyddyn dreth yn rhedeg o 6 Ebrill mewn un blwyddyn tan 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol). Bydd rhaid i chi fynychu cyfweiliad fel rhan o'ch hawliad ac efallai y bydd angen i chi fynd i'r Ganolfan Byd Gwaith (neu Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon) yn rheolaidd.

Faint yw'r lwfans?

Telir Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at 182 o ddyddiau (tua chwe mis) ac nid yw cynilion eich cartref yn effeithio arno. Yn 2022/23, telir Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfradd sefydlog o £84.80 yr wythnos, neu £67.20 yr wythnos os ydych chi'n iau na 25 oed.

Bydd y swm o Lwfans Ceisio Gwaith y byddwch yn ei dderbyn yn cael ei ostwng yn ôl unrhyw enillion sydd gennych dros £5 yr wythnos ac unrhyw bensiwn galwedigaethol neu bersonol o fwy na £50 yr wythnos. Nid yw incwm arall, megis llog o gynilion, yn effeithio ar faint o Lwfans Ceisio Gwaith y byddwch chi'n ei dderbyn. Os oes gennych bartner, nid yw ei enillion/ei henillion yn effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith.

A wyddech chi

Os nad ydych chi wedi talu digon o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu hawlio Credyd Cynhwysol yn lle hynny.

Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Budd-dal Tai

Mae Credyd Cynhwysol yn seiliedig ar incwm y cartref, felly os yw'ch partner yn byw gyda chi, bydd incwm eich partner yn effeithio ar faint y byddwch chi'n ei dderbyn.

Am fwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol, ewch i'r wefan moneyhelper.org.uk/cy/benefits/universal-credit/universal-credit-an-introduction

Taliadau Credyd Cynhwysol

Telir Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i'ch banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif undeb credyd.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Lloegr, byddwch chi'n derbyn un taliad ar gyfer y cartref bob mis.

Yn yr Alban, gallwch ddewis derbyn taliadau bob pythefnos.

Yng Ngogledd Iwerddon, byddwch chi'n derbyn taliadau bob pythefnos, ond gallwch chi ddewis derbyn taliadau misol yn lle hynny.

Hawlio Credyd Cynhwysol

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, fel arfer bydd angen i chi wneud cais a rheoli'ch hawliad ar-lein.

Os oes angen help arnoch wrth ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur neu wella'ch sgiliau:

- Ffoniwch neu ewch i'ch llyfrgell leol am gymorth ar sut i fynd ar-lein.
- Gofynnwch i'ch hyfforddwr gwaith Canolfan Byd Gwaith (Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon)
- Ffoniwch Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol ar 0800 100 900, neu Wasanaeth Gyrfaoedd Gogledd Iwerddon ar 0300 200 7820.
- Ewch i onlinecentresnetwork.org am fanylion eich canolfan hyfforddiant agosaf
- Rhowch gynnig ar y cyrsiau sgiliau cyfrifiadurol am ddim yn learnmyway.com

Pwynt pwysig

Os ydych chi eisoes yn hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau y mae Credyd Cynhwysol yn eu disodli a'ch bod yn colli'ch swydd, mae'n bosibl y bydd angen i chi hawlio Credyd Cynhwysol.

Gallai'r swm o Gredyd Cynhwysol y byddwch chi'n ei dderbyn fod yn fwy neu'n llai na'r hyn yr ydych chi'n ei dderbyn yn awr.

Gallwch ddefnyddio ein Cyfrifiannell Budd-daliadau am amcangyfrif o faint o Gredyd Cynhwysol y gallech chi ei dderbyn. moneyhelper.org.uk/cy/benefits/benefits-calculator

Ymrwymiad hawliwr

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi fynychu cyfweiliad wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Bydd hyfforddwr gwaith yn eich helpu i lunio cytundeb sy'n amlinellu'r camau yr ydych chi'n cytuno eu cymryd i chwilio am waith. Gelwir hyn yn ymrwymiad hawliwr.

Mae'n bosibl y bydd angen i chi fynd i'r Ganolfan Byd Gwaith neu gadw mewn cysylltiad ar-lein gyda'ch hyfforddwr gwaith yn rheolaidd i gadarnhau'ch hawliad budd-daliadau.

Cynilion a budd-daliadau prawf modd

Bydd cynilion dros £6,000 yn gostwng swm y Credyd Cynhwysol y byddwch chi'n ei dderbyn a bydd cynilion dros £16,000 yn golygu na fyddwch chi'n gymwys i'w ddebryn.

Sut mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyfrif

Gan ddiwyddynnu ar eich amgylchiadau, byddwch chi'n derbyn lwfans sylfaenol Credyd Cynhwysol ac arian ar wahân i dalu am gostau tai, plant a gofal. Mae'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn dreth 2023/24.

Lwfans Sylfaenol

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch yn derbyn un lwfans sylfaenol ar gyfer eich cartref. Mae'r swm a dderbyniwch fydd:

- £292.11 y mis i hawlwyrs sengl dan 25 oed
- £368.74 y mis i hawlwyrs sengl 25 oed neu hyn
- £458.51 y mis i hawlwyrs cyplau dan 25 oed
- £578.82 y mis i hawlwyrs cyplau lle mae naill neu'r llall yn 25 oed neu hyn

Arian gofalu am blentyn/plant

Os ydych yn gofalu am blentyn dan 16 oed, neu unigolyn ifanc cymwys dan 20 oed, rydych yn gymwys am arian gofalu am blentyn/plant. Byddwch chi'n gallu derbyn:

- £315 y mis ar gyfer y plentyn cyntaf neu'r unig blentyn a aned cyn 6 Ebrill 2017
- £269.58 y mis fesul plentyn ym mhob achos arall.

Gallwch ond hawlio arian gofalu am blentyn/plant am ddau blentyn yn unig, oni bai bod eithriad, fel genedigaethau lluosog, neu os ydych wedi mabwysiadu plant.

Os oes gan eich plentyn gyflwr iechyd hirdymor neu os yw'n anabl, efallai y byddwch chi'n gymwys i hawlio arian gofalu am blentyn anabl (gweler isod):

- £146.31 y mis fesul plentyn neu berson ifanc cymwys sy'n derbyn ychwanegiad cyfradd is o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar hyn o bryd
- £456.89 y mis fesul plentyn neu berson ifanc cymwys os bydd yn derbyn ychwanegiad cyfradd uwch o DLA neu gyfradd uwch o PIP, neu sydd wedi'u cofrestru'n ddall.

Costau gofal plant

Os ydych yn gweithio, gallwch gael hyd at 85% o'ch costau gofal plant wedi'i dalu, hyd at uchafswm o £646.35 y mis am un plentyn, neu £1108.04 y mis am ddau blentyn neu fwy. Bydd y cap hwn yn codi i £951 ar gyfer un plentyn a £1,630 ar gyfer dau blentyn yn haf 2023.

Rhaid i'r ddau ohonoch fod yn gweithio os ydych yn hawlio fel cwpl, oni bai bod y partner nad yw'n gweithio:

- â gallu cyfyngedig i weithio neu gallu cyfyngedig i weithio a gweithgarwch yn gysylltiedig â gwaith
- yn ofalu am rywun sydd ag anabledd difrifol
- yn absennol dros dro, er enghraifft mewn carchar, ysbyty neu mewn gofal preswyl.

Gallu cyfyngedig i weithio a gweithgarwch yn gysylltiedig â gwaith

Byddwch chi'n derbyn £390.06 y mis os byddwch chi'n bodloni'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) a bod gennych chi allu cyfyngedig i weithio a gweithgarwch yn gysylltiedig â gwaith (LCWRA).

Os ydych yn hawlio fel cwpl, dim ond un ohonoch sydd angen bod â LCWRA i gael yr arian hwn.

Ni fyddwch yn derbyn hwn os ydych yn ennill mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol, oni bai eich bod yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) hefyd neu'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Arian am fod yn ofalwr

Os ydych yn gofalu am unigolyn sydd ag anabledd difrifol am 35 awr yr wythnos o leiaf, byddwch chi'n derbyn £185.86 y mis.

Os ydych yn hawlio fel cwpl, gall y ddau ohonoch dderbyn arian am fod yn ofalwr, ond nid os ydych yn gofalu am yr un unigolyn.

Nid ydych yn gymwys am arian am fod yn ofalwr os ydych yn ennill cyflog o'ch cyfrifoldebau gofalu.

Os ydych yn hawlio fel unigolyn sengl, yna byddwch chi'n derbyn un swm o arian yn unig am fod yn ofalwr, hyd yn oed os ydych yn gofalu am fwy nag un unigolyn anabl.

Os oes mwy nag un unigolyn yn gofalu am yr un unigolyn, yna bydd angen ichi benderfynu pwy fydd yn cael yr arian am fod yn ofalwr.

Am fwy o wybodaeth am faint o Gredyd Cynhwysol y gallwch chi ei dderbyn, ewch i moneyhelper.org.uk/faint-ydi-credyd-cynhwysol

Help gyda chostau tai

Mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn gorfod hawlio Credyd Cynhwysol os ydynt angen help gyda rhent.

Arian costau tai

Mae'r arian costau tai yn eich helpu i dalu am y cyfan neu ran o'ch rhent a rhai ffioedd gwasanaeth.

Mae'r swm y byddwch chi'n ei dderbyn yn dibynnu ar ble ydych chi'n byw ac os ydych chi'n denant preifat neu gymdeithasol - gweler tudalen 25.

Yng Nghymru a Lloegr, telir yr arian hwn i'ch cyfrif banc a byddwch chi'n gyfrifol am wneud y taliadau i'ch landlord.

Yn yr Alban, gallwch ddewis talu'ch rhent eich hun neu gellir ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord.

Yng Ngogledd Iwerddon, telir eich rhent yn uniongyrchol i'ch landlord. Ond gallwch ddewis derbyn yr arian yn uniongyrchol a thalu'ch landlord eich hun.

Tenantiaid preifat

Mae'r arian costau tai ar gyfer tenantiaid preifat yn seiliedig ar Lwfans Tai Lleol (LHA) ar gyfer eich ardal.

Cyfrifir LHA ar fformiwla ar gyfer prisiau rhent yn eich ardal am nifer yr ystafelloedd sydd ei angen arnoch.

Er enghraifft, bydd hawliwr sengl heb blant, yn derbyn ei LHA yn seiliedig ar gost rhentu fflat un ystafell wely yn yr ardal honno.

Golyga hyn efallai na fydd eich arian costau tai yn ddigon i dalu'r cyfan o'ch rhent.

Tenantiaid tai cymdeithasol

Os ydych yn denant tai cymdeithasol, mae'r arian costau tai yn seiliedig ar eich rhent cymwys.

Mae'r rhent cymwys yn ystyried nifer yr ystafelloedd gwely sydd ei angen ar eich teulu. Caniateir un ystafell wely am:

- pob cwpl oedolion
- pob unigolyn sy'n hŷn nag 16 oed
- dau blentyn dan 16 oed o'r un rhyw
- dau blentyn dan 10 oed waeth beth yw eu rhyw
- unrhyw blentyn arall
- gofalwr dros nos nad yw'n byw gyda chi fel arfer.

Os oes gennych chi fwy o ystafelloedd gwely nac sydd eu hangen arnoch chi, bydd eich rhent cymwys yn cael ei ostwng yn:

- 14% ar gyfer un ystafell wely ychwanegol
- 25% ar gyfer dwy neu ragor o ystafelloedd gwely ychwanegol.

Ni fydd y gostyngiad hwn yn effeithio arnoch os ydych yn:

- ofalwyr maeth
- rhieni rhywun sydd yn y lluoedd arfog neu
- fyfyrwr llawn amser
- rhiant plentyn sydd ag anabledd difrifol
- oedran pensiwn y wladwriaeth.

Perchnogion Tai

Os ydych chi'n berchennog tŷ sy'n derbyn rhai budd-daliadau yn seiliedig ar incwm, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu derbyn cymorth gyda thaliadau llog eich morgais.

Gelwir hyn yn Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais (smi) ac cynigir fel benthyciad. Telir SMI fel arfer yn uniongyrchol i'ch rhoddwr benthyciadau, ond mae'n talu am eich

taliadau llog yn unig, ac nid y swm yr ydych chi wedi'i fenthycha.

Rhaid ad-dalu'r benthyciad pan fyddwch chi'n gwerthu'r eiddo, neu ar eich marwolaeth. Os byddwch chi'n marw ac y bydd y cartref yn cael ei drosglwyddo i'ch priod neu bartner sifil, gellid talu'r benthyciad yn ôl pan fydd ef/hi yn marw neu'n gwerthu'r eiddo.

Fel arfer byddwch chi'n gorfod aros 13 wythnos cyn i chi dderbyn y benthyciad, felly bydd angen i chi feddwl am sut y byddwch chi'n talu'ch morgais wrth i chi aros.

Am wybodaeth bellach, opsiynau ar gyfer ad-dalu'r benthyciad, ac i ganfod a ydych yn gymwys, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/smi** Am gyngor a chymorth am dai, gweler tudalen 37 i 30.

Gostyngiad Treth Gyngor

Rhaid i'r rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru a Lloegr dalu Treth Gyngor i'w cyngor lleol. Ond, os bydd eich incwm yn isel, efallai y bydd eich cyngor yn cytuno i ostwng eich bil. Bydd faint y gostyngiad yn dibynnu ar gynllun lleol eich cyngor chi.

Ni fydd y rhan fwyaf o gynghorau yn ôl-ddyddio taliadau. Felly, os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol neu Lwfans Ceisio Gwaith am y tro cyntaf, peidiwch â gwastraffu amser. Sicrhewch eich bod yn gwneud cais am ostyngiad cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'ch hawl.

Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun, mae gennych hawl i ostyngiad person sengl.

Gwnewch hawliad i'ch cyngor lleol. Am fwy o wybodaeth am sut i wneud cais, ewch i gov.uk/council-tax-reduction

Gelwir hyn yn Ad-daliad trethi os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Ngo-gledd Iwerddon

Os ydych chi'n derbyn Credyd Cynhwysol, efallai y byddwch chi'n gallu derbyn rhywfaint o gymorth tuag at dalu eich trethi.

Am fwy o wybodaeth am wneud cais am Ad-daliad Trethi, ewch i nidirect.gov.uk/articles/homeowners-and-tenants-applying-rate-rebate

Ni fydd Gwasanaethau Tir ac Eiddo sy'n gofalu am hawliadau Ad-daliad Trethi yn ôl-ddyddio taliadau.

Felly os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, peidiwch â gwastraffu amser.

Am fwy o wybodaeth am gymorth trethi, ewch i nidirect.gov.uk/information-and-services/help-paying-your-rates/rates-housing-benefit-and-rate-relief

Budd-daliadau eraill

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, efallai y byddwch chi'n gymwys i dderbyn budd-daliadau prawf modd eraill, gan ddibynnu ar incwm eich cartref, cynilion ac amodau eraill.

Am fwy o wybodaeth am holl fudd-daliadau'r wladwriaeth a'r hyn y gallai fod gennych hawl iddo, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living

Credydau Treth

Os ydych chi wedi bod yn gweithio ac yn derbyn credydau treth a'ch bod yn colli'ch swydd, rhaid i chi ddweud wrth Swyddfa'r Credydau Treth yn syth drwy ffonio 0345 300 3900.

Os oes angen help arnoch gyda chostau magu plant, efallai y bydd rhaid i chi gwneud cais i hawlio arian gofalu am blentyn y Credyd Cynhwysol. Mae'n bwysig iawn i ofyn am gyngor arbenigol ar fudd-daliadau cyn i chi wneud hyn oherwydd unwaith y byddwch wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ni allwch fynd yn ôl i Gredydau Treth.

Os ydych yn trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol o Gredydau Treth, bydd y credydau treth yn stopio cyn gynted ag y byddwch yn hawlio am Gredyd Cynhwysol. Bydd CThEM yn cyfrifo a oes gennych unrhyw arian yn ddyledus iddynt ar ôl i'r hawliad ddod i ben. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw ordaliadau.

Tynnir y rhain o'ch taliadau Credyd Cynhwysol mewn rhandaliadau. Os digwyddir hyn ac rydych yn cael trafferth i ymdopi, siaradwch â'ch hyfforddwr gwaith am ffyrdd o wneud yr ad-daliadau yn fwy fforddiadwy. Os ydych yn cael trafferth gyda dyledion eraill, gallwch derbyn cyngor am ddim ar ddyledion i'ch helpu chi nôl ar y trywydd cywir.

Os ydych chi eisoes yn derbyn Credydau Treth, mae'r swm a ganiateir i chi gael mewn cynilion yn wahanol i'r rheolau ar gyfer cynilion a Chredyd Cynhwysol. Mae'n well cael cyngor budd-daliadau arbenigol cyn i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol i wirio mai dyma'r peth iawn i chi ei wneud.

Mae system fudd-daliadau'r DU yn gymleth. Mae gan Gyngor ar Bopeth wasanaeth penodol i'ch helpu chi. Am fwy o wybodaeth, ewch i citizensadvice.org.uk/helptoclaim

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, dylech gysylltu â Chyngor GI - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Gwneud y gorau o'ch tâl colli swydd

Efallai eich bod wedi derbyn cyfandaliad colli swydd. Wrth i chi benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian, mae yna ddau beth y mae angen i chi eu gwneud yn gyntaf.

Cam 1 – Rhowch ryw faint o'r arian o'r neilltu ar gyfer treth.

Felly, os cewch fil treth ar ddiwedd y flwyddyn, byddwch yn barod amdano. Am fwy o wybodaeth am dreth ar dâl colli swydd, gweler tudalen 15.

Cam 2 – Rhowch yr arian mewn cyfrif cynilo mynediad hawdd..

Bydd hyn yn golygu y bydd yn ennill mwy o log na chyfrif cyfredol ond bydd modd i chi gael mynediad at yr arian yn gyflym os byddwch ei angen.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn rhoi rhai syniadau o sut i wneud y defnydd gorau o'ch arian.

Angen help i gadw ar ben biliau a thaliadau?

Defnyddiwch ein Blaenoriaethwr Biliau i'ch helpu i roi'ch biliau a thaliadau mewn trefn a gwybod pa rai sydd angen eu talu yn gyntaf
moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/cost-of-living/bill-prioritiser



Defnyddio eich tâl colli swydd

Dylech ychwanegu at eich incwm nes y byddwch yn cael swydd newydd	● Defnyddiwch y cynlluniwr Cyllideb ar dudalen 31 i gyfrifo faint sydd ei angen arnoch bob wythnos neu fis, ac am faint o amser y gallwch wneud i'r arian bara.
Cliriwch eich dyledion, os bydd hyn yn golygu lleihau eich gwariant i lefel sy'n haws ei reoli	● Defnyddiwch y cynlluniwr Cyllideb ar dudalen 31 i gyfrifo effaith yr arbediad wythnosol neu fisol ar ad-daliadau. ● Mae'r llog a godir ar ddyledion bron bob amser yn uwch na'r llog a delir ar gynilion. Os yw'n bosib i chi ei wneud, anelwch at glirio dyledion pwysig cyn gynted ag sy'n bosib. ● Gwiriwch a oes unrhyw gosbau ad-dalu cynnar ar ddyledion yr ydych yn ystyried eu had-dalu yn llawn. ● Gallai ad-dalu dyledion effeithio ar unrhyw hawliad am fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd os nad oedd rhaid i chi ad-dalu'r dyledion a'ch bod wedi gwneud hynny o leiaf yn rhannol er mwyn cynyddu eich budd-daliadau drwy leihau eich cynilion. Ond mae'n annhebygol y bydd ad-dalu dyledion pwysig, megis morgais neu ôl-ddyledion rhent, yn effeithio ar eich budd-daliadau. Mae'r pwnc hwn yn gymhleth felly gofynnwch am gyngor gan gynghorydd budd-daliadau neu ddyledion - gweler <i>Cysylltiadau defnyddiol</i> ar dudalen 46.
Defnyddiwch yr arian fel cyfalaf i ailhyfforddi neu ddechrau eich busnes eich hun	● Talwch i ailhyfforddi neu datblygu eich sgiliau. ● Os ydych yn hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth, gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) am gymorth ariannol sydd ar gael wrth gychwyn busnes.
Gallwch roi hwb i'ch cynilion pensiwn neu fuddsoddwch yr arian mewn ffyrdd eraill	● Byddwch yn cael rhyddhad treth ar y swm yr ydych yn ei dalu i gynllun pensiwn hyd at derfynau penodol - gweler tudalen 30. ● Os ydych yn ystyried gwneud hyn, gofynnwch am gyngor gan gynghorydd ariannol gyntaf - gweler <i>Cysylltiadau defnyddiol</i> ar dudalen 46.

Awgrym da

Ceisiwch gadw rhywfaint o'ch arian colli swydd ar gyfer costau annisgwyl, megis car neu atgyweiriadau i'ch cartref. Fel rheol, dylech geisio neilltuo swm sy'n gyfwerth â thri mis o wariant hanfodol.

Cynilo neu fuddsoddi tâl colli swydd

Os nad ydych eisiau dechrau defnyddio eich tâl colli swydd ar unwaith efallai y byddwch am gynilo neu fuddsoddi'r arian.

Cynilo tymor byr risg isel

Os bydd angen i chi gael mynediad at yr arian i'ch helpu nawr, mae cyfrif cynilo yn debygol o fod yn ddewis addas.

Er enghraifft, gallech ystyried:

- **ISA Arian Parod.** Mae'r llog yn ddi-dreth ac mae nifer ohonynt yn rhoi mynediad rhwydd i chi at eich arian. Gallwch gynilo hyd at £20,000 mewn ISA arian parod yn y flwyddyn dreth bresennol 2023/24. Gallwch naill ai buddsoddi mewn un math o ISA, neu rhannu'r arian rhwng dau fath o gyfrifon. Hyd yn oed os ydych yn penderfynu rhannu'r arian rhwng cyfrifon, ni allwch buddsoddi mwy na £20,000.
- **Cyfrifon tymor.** Os ydych yn hyderus nad oes angen yr arian arnoch yn awr, gallwch gael cyfradd llog gwell fel arfer drwy gytuno i beidio â defnyddio eich arian am gyfnod penodol, fel arfer rhwng un a phum mlynedd.

Gwnewch ymchwil ar-lein am pa cyfrifon gorau sydd ar gael neu edrychwch ar dablau 'cyfrifon gorau' mewn papurau newydd.

Buddsoddiadau tymor hwy

Os nad oes angen eich tâl colli swydd arnoch i dalu am bethau ar unwaith, gallech ystyried buddsoddi'r arian. Ond os nad ydych yn siŵr am faint o amser

y byddwch yn ddi-waith, efallai na fydd hyn yn syniad da.

- **Stociau a chyfranddaliadau ISA.** Bydd eich arian yn cael ei fuddsoddi mewn stociau a chyfranddaliadau, ond gallwch chi ddal yn cymryd mantais o'r terfyn ISA di-dreth.

Mae buddsoddiadau ar sail cyfranddaliadau yn fwy o risg oherwydd gall gwerth eich buddsoddiad fynd i lawr yn ogystal â lan, felly nid ydynt yn lle cadw arian y gallwch fod ei angen yn fuan neu heb fawr o rybudd.

Os nad ydych wedi buddsoddi o'r blaen, neu os oes gennych swm mawr i'w fuddsoddi, gofynnwch am gymorth gan gynghorydd ariannol - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/savings/investing/investing-beginners-guide

Pwynt pwysig

Os ydych chi'n meddwl efallai y bydd angen i chi gael mynediad at eich arian ar unwaith, bydd cyfrif cynilo yn fwy addas i chi na chyfranddaliadau.

Defnyddio eich tâl colli swydd i roi hwb i'ch pensiwn

- Os ydych yn agos at oedran ymddeol, gallech roi rhan neu'ch holl arian colli swydd mewn i'ch cynllun pensiwn yn y gwaith i roi hwb i'r pensiwn yr ydych ar fin ei dderbyn. Trafodwch hyn gyda'ch adran Adnoddau Dynol i ganfod sut y gallai gynyddu'r pensiwn y gallwch ei gael.
- Os yw eich oedran ymddeol peth amser i ffwrdd, gallech fuddsoddi eich arian colli swydd mewn cynllun pensiwn personol i'ch helpu i roi hwb i'ch incwm ar ôl ymddeol. Os ydych yn aelod o NEST, gallech chi roi peth o'ch arian colli swydd yn eu cynllun yn lle hynny.

Rhyddhad treth ar bensiynau

Mae rhoi arian mewn pensiwn yn ffordd treth effeithlon o fuddsoddi, ond fel arfer ni fyddwch yn gallu cael mynediad at eich cynilion nes byddwch chi'n 55 mlwydd oed o leiaf.

Gallai'r swm y byddwch yn ei dalu i bensiwn fod yn gymwys am ryddhad treth, o fewn cyfyngiadau. Os ydych chi'n drethdalwr yn y DU, yn y flwyddyn dreth 2023/24, gallech chi fod yn gymwys am ryddhad treth ar gyfraniadau pensiwn o hyd at 100% o'ch enillion neu £60,000 (a elwir yn lwfans blynyddol), pa un bynnag yw'r isaf. Er enghraifft, os byddwch yn ennill £20,000 i gyd yn ystod y flwyddyn dreth, gallwch gael rhyddhad treth ar hyd at £20,000 o gyfraniadau pensiwn. Os nad oes gennych unrhyw enillion, neu os byddwch yn ennill llai na £3,600 y flwyddyn, yna gallwch gael rhyddhad treth wedi'i ychwanegu at eich cyfraniadau pensiwn hyd at £2,880 y flwyddyn. Gan gynnwys rhyddhad treth,

mae hyn yn golygu y bydd £3,600 yn cael ei dalu mewn i'ch cynllun pensiwn.

Efallai y bydd lwfans blynyddol gostyngol o £10,000 yn berthnasol gyda chyfraniadau pensiwn DC, a elwir hefyd yn lwfans blynyddol prynu arian (MPAA), ar gyfer unigolion sydd wedi dechrau tynnu incwm o'u pensiwn.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/treth-ar-gyfraniadau-pensiwn

Lwfans Blynyddol Llai

Am bob £2 o incwm yn uwch na £260,000 y flwyddyn, bydd £1 o lwfans blynyddol yn cael ei golli. Y gostyngiad uchaf fydd £50,000 sy'n golygu y bydd unrhyw un sy'n ennill mwy na £360,000 yn cael eu lwfans blynyddol wedi'i gapio yn £10,000.

Bydd lefel dybiedig o enillion yn golygu na fydd y gostwng yn berthnasol oni bai bod incwm yr unigolyn ac eithrio cyfraniadau pensiwn yn fwy na £200,000 (y cyfeirir ato fel eu "incwm trothwy").

Mae hwn yn faes cymhleth felly gofynnwch am gyngor gan gynghorydd ariannol bob amser. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Sut i ymdopi gyda llai o arian

P'un a yw eich swydd eisoes mewn perygl neu os ydych yn poeni am golli swyddi posibl, un o'r pethau pwysicaf y gallwch eu gwneud ar yr adeg hon yw edrych ar eich sefyllfa ariannol a dechrau ei rheoli.

Llunio cyllideb

Cyllideb yw rhestr o'ch holl incwm a gwariant. Os ydych eisoes wedi colli eich gwaith, efallai y bydd angen i chi gyllidebu'n ofalus nes y cewch swydd newydd.

Defnyddiwch ein Cynlluniwr Cyllideb yn

moneyhelper.org.uk/cynlluniwr-cyllideb

Neu llenwch y **Cynlluniwr cyllideb**.

Beth bynnag sy'n digwydd yn eich bywyd, mae ffyrdd o wneud i'ch incwm bara hirach. Dysgwch sut i arbed arian ar gostau a gweld pa gymorth ychwanegol sydd ar gael.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **moneyhelper.org.uk/ffordd-ymlaen/incwm-gwasgedig**

Cynlluniwr cyllideb

Defnyddiwch ein **Cynlluniwr cyllideb** i gyfrifo sut y gallwch wneud newidiadau er mwyn i'ch arian bara yn hwy.

Bydd yr offeryn hwn yn rhoi darlun clir i chi o'r arian sy'n dod mewn gennych a'r arian sydd ei angen i dalu am bethau.

Ewch i **moneyhelper.org.uk/cynlluniwr-cyllideb**



Pennu cyllideb

Eich incwm	£
Budd-daliadau'r wladwriaeth (Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Cynhwysol, arall)	
Incwm o unrhyw bolisiau yswiriant	
Enillion o unrhyw swyddi neu hunangyflogaeth	
Incwm arall (er enghraifft, cynilion, incwm rhent)	
Cyfanswm incwm	A
Eich gwariant	£
Costau tai (rhent neu forgais, tâl gwasanaeth/rhent tir, Treth Gyngor, Trethi yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliaeth/atgyweiriadau) ond nid unrhyw symiau sy'n cael eu talu gan y Gostyngiad Treth Gyngor neu gymorth ar gyfer costau tai.	
Biliau'r cartref (trydan, nwy, olew/tanwydd, dŵr, ffôn, band eang, teledu)	
Bwyd a siopa cyffredinol	
Yswiriant (adeiladau, cynnwys, car, bywyd, iechyd, anifail anwes)	
Costau teithio (petrol/disel, treth cerbyd, cynnal a chadw car ac MOT, parcio, bws, trê, tiwb, arall)	
Ad-daliadau benthychiadau (ar wahân i forgais)	
Cynilion arferol	
Costau chwilio am waith (papurau newydd, defnyddio'r rhyngrwyd, galwadau ffôn, llungopïo, postio, teithio i gyfweiliadau)	
Gwariant arall	
Cyfanswm gwariant	B
Gweddill neu ddiffyg	A-B

Awgrymiadau am sut allwch chi gynyddu eich incwm

Yn wynebu colli'ch swydd? Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi roi hwb i'ch incwm pan fydd bywyd yn anodd. Yn yr adran hon rydym yn tynnu sylw at ychydig o bethau y gallwch eu gwneud.

Gwneud ymchwil i arbed arian

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y cytundeuau gorau ar eich biliau. Defnyddiwch fwy nag un safle cymharu i gael y fargen orau.
- Chwiliwch am y fargen orau pan fydd angen adnewyddu yswiriant eich car neu gartref gan y bydd llawer o yswirwyr yn codi tâl uwch os ydych yn ddi-waith.
- Chwiliwch i weld a oes ffyrdd eraill o wario llai a siopa'n fwy effeithiol neu gwariwch lai ar bethau nad ydynt yn hanfodol.

Gofyn am help gyda biliau gwresogi

Mae gan y rhan fwyaf o gyflenwyr ynni Ddisgownt Cartrefi Cynnes i gwsmeriaid bregus. Penderfyniad pob darparwr unigol yw e pwy sy'n cael ei hystyried yn fregus. Rhaid i'ch incwm fod yn isel, ond efallai y bydd raid i chi fodloni amodau eraill hefyd, fel bod plant neu unigolyn hen neu anabl yn byw gyda chi.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch darparwr ynni yn uniongyrchol neu ewch i **gov.uk/cynllun-disgownt-cartrefi-cynnes**

A wyddech chi?

Mae troi eich gwres i lawr un radd yn gallu arbed tua £145 y flwyddyn mewn cartref arferol. Ffynhonnell: Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Gwiriwch i weld a allwch hawlio ad-daliad treth

Gofynnwch i'ch swyddfa dreth a allwch derbyn ad-daliad treth nawr bod eich incwm yn is. Os bydd eich enillion yn dod i ben ar ryw pwynt drwy'r flwyddyn, efallai y bydd gennych ryw faint o lwfans heb ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn a byddwch chi'n gallu hawlio ad-daliad treth.

Ewch i moneyhelper.org.uk/cy/work/losing-your-job/claiming-your-tax-rebate-after-losing-your-job

Gosod ystafell

O dan y cynllun gosod ystafell, gallwch ennill hyd at £7,500 y flwyddyn mewn incwm rhent yn ddi-dreth os byddwch chi'n gosod ystafell. Serch hynny, cofiwch y gallai unrhyw incwm trethadwy o osod ystafell gael ei ystyried wrth gyfrifo'ch hawliad i rai budd-daliadau gwladol.

- Bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan eich darparwr morgais neu landlord.
- Rhewch wybod i yswiriwr eich cartref – gallai hyn effeithio ar eich yswiriant neu bremiwm.
- Os ydych yn hawlio budd-daliadau, gofynnwch am gynghor arbenigol cyn i chi osod ystafell i weld sut y gallai effeithio arnoch chi.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/homes/renting/rent-a-room-scheme-how-it-works-and-tax-rules

Gwneud gwaith achlysurol

Efallai y bydd yn bosib i chi wneud ychydig o waith dros dro neu waith achlysurol, ond bydd hwn yn effeithio ar eich hawl i dderbyn rhai budd-daliadau'r wladwriaeth.

Awgrym da

Gallai cymharu cytundebau ar ffonau symudol, band eang, teledu lloeren, cardiau credyd a biliau eraill arbed £100+ i chi bob blwyddyn.

Gofyn am help gyda benthyciadau a dyledion

Mae benthycia a defnyddio credyd yn rhan o fywyd bob dydd, p'un a yw'n forgais, benthyciad car neu ad-daliadau cerdyn credyd. Mae'r taliadau hyn yn hawdd i'w gwneud pan fydd arian gennych yn dod i mewn, ond gall fod yn anodd os ydych yn colli'ch swydd.

Defnyddiwch eich cynilion i ad-dalu benthyciadau

Nid yw'n gwneud synnwyr cadw eich cynilion os ydych yn talu am fenthyciadau drud. Defnyddio eich cynilion os oes gennych gynilion i dalu biliau cerdyn credyd a benthyciadau. Mae cynilion fel arfer yn ennill llai o log na'r llog a godir ar fenthyciadau, felly bydd hyn fel arfer yn gwella eich sefyllfa ariannol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/savings/how-to-save/should-i-save-or-pay-off-debt

Siarad â'r bobl y mae arnoch arian iddynt

Os ydych yn dechrau wynebu problemau gyda'ch dyledion, dylech lunio cyllideb, blaenoriaethu eich dyledion (gweler y dudalen nesaf) a siarad â'r bobl y mae arnoch arian iddynt.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/options-for-clearing-your-debts-england-and-wales

Gofyn am gymorth os ydych yn wynebu problemau gyda dyledion

Os oes gennych bryderon ariannol, efallai mai'r peth olaf y byddwch am ei wneud yw trafod y pryderon gyda dieithryn. Ond, gall fod y peth gorau i chi ei wneud.

Y newyddion da yw bod cymorth cyfrinachol, am ddim, ar gael i bawb. Mae Cyngor ar Bopeth, y Llinell Ddyled Genedlaethol, StepChange ac elusennau eraill sy'n darparu cyngor ar ddyledion yn cael eu cynnal gan bobl brofiadol a gwybodus, a fydd yn gallu eich helpu.

Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46 neu ewch i: moneyhelper.org.uk/cy/money-troubles/dealing-with-debt/debt-advice-locator

Dyledion pwysig a dyledion nad ydynt mor bwysig

Drwy dalu'r dyledion cywir yn gyntaf, rydych yn fwy tebygol o allu cadw eich cartref - a'r gwres ymlaen. A thrwy fod yn effeithlon ynghylch sut y byddwch yn ad-dalu, gallech arbed arian hefyd a chlirio eich dyledion yn gyflymach.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/sut-i-flaenoriaethu-dyledion

Dyledion pwysig

Mae'r dyledion rhain yn flaenoriaeth oherwydd y canlyniadau difrifol os na fyddwch yn eu talu, er enghraifft gallech golli eich cartref neu gallai eich nwy neu drydan gael eu diffodd. Ond hyn fyddai'r dewis olaf.

Dyledion nad ydynt mor bwysig

Os na fyddwch yn talu'r rhain, gallech orfod mynd i'r llys. Gallai hyn arwain at feiliaid yn mynd â'ch meddiannau o'ch cartref.

Engbreiffiau o ddyledion pwysig

- Eich rhent neu forgais (neu fenthyciad arall wedi'i diogelu ar eich cartref)
- Biliau tanwydd
- Eitemau hanfodol sy'n cael eu prynu drwy hurbwrcas (megis car sydd ei angen arnoch ar gyfer y gwaith)
- Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor (Cymru a Lloegr yn unig)
- Dirwyon llys a thaliadau cynhaliath
- Trwydded deledu
- Dyledion trethi.

Engbreiffiau o ddyledion nad ydynt mor bwysig

- Dyledion credyd, megis gorddrafftiau, benthyciadau, hurbwrcas ar eitemau nad ydynt yn hanfodol, cardiau credyd a dyledion catalogau
- Benthyciadau myfyrwyr (er y dylai ad-daliadau gael eu gohirio os bydd eich incwm yn is na lefel benodedig)
- Arian sydd wedi'i fenthycu gan ffrindiau a theulu.

Byddwch yn ofalus o gwmnioedd ag enwau camarweiniol sy'n ymddangos fel elusennau dyledion ond busnesau ydyn nhw mewn gwirionedd. Peidiwch â thalu am wasanaethau cyngor dyledion. Defnyddiwch un o'r gwasanaethau am ddim - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46 neu ewch i moneyhelper.org.uk/sut-i-flaenoriaethu-dyledion

Diogelu eich cartref

Os byddwch yn colli eich swydd efallai y byddwch yn poeni am golli eich cartref hefyd. Dylech sicrhau bod talu eich rhent neu forgaïs (neu unrhyw fenthyciad arall sydd wedi'i diogelu ar eich cartref) yn flaenoriaeth a gofynnwch am gyngor yn gyflym os byddwch yn profi unrhyw broblemau.

Os oes gennych broblemau wrth dalu'ch rhent neu forgaïs, peidiwch â chuddio'r broblem - mae help ar gael. Y peth cyntaf y dylech ei wneud yw cysylltu â'ch landlord neu fenthyciwr morgaïs. Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cyngor am ddim ar dai a gallant eich helpu i hawlio unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth y mae gennych hawl iddynt. Mae gennych hawliau tai hefyd, sy'n sicrhau na ellir eich gorfodi i adael eich cartref heb gyfnod rhybudd.

Shelter (Lloegr a'r Alban)

0808 800 4444

shelter.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)

0345 075 5005

sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai
(Gogledd Iwerddon)

028 9024 5640

housingrights.org.uk



Problemau wrth dalu eich rhent

Os ydych yn cael problemau wrth dalu eich rhent, gwnewch ymholiadau i weld a ydych yn gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth. Gallai hyn gynnwys:

- Arian costau tai o Gredyd Cynhwysol tuag at eich taliadau rhent (gweler tudalen 22 a 23), neu
- fudd-daliadau eraill a allai helpu i leihau'r straen ar eich cyllideb (gweler tudalen 26).

Os oeddech yn derbyn Budd-dal Tai

Os oeddech yn derbyn Budd-dal Tai a'ch bod newydd wneud cais am Gredyd Cynhwysol, bydd eich Budd-dal Tai yn cael ei dalu am bythefnos arall ar ôl i chi gyflwyno eich cais Credyd Cynhwysol. Bydd yn dod i ben ar ôl hynny. Os bydd gennych problem wrth dalu eich rhent cyn i chi dderbyn eich taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, siaradwch â'ch anogwr gwaith am y posibilïad o dderbyn taliad ymlaen llaw.

Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai

Efallai na fydd yr arian costau tai yn talu eich holl rhent, yn enwedig os ydych yn byw mewn llety rhent preifat. Os nad oes gennych ddigon o arian i dalu eich rhent, gallwch wneud cais i'ch cyngor lleol am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai i dalu'r gwahaniaeth.

Cysylltwch â'ch landlord ar unwaith

Cyn gynted ag y byddwch yn dechrau wynebu problem wrth dalu eich rhent, cysylltwch â'ch landlord ac esboniwch eich sefyllfa. Efallai y gallwch ddod i gytundeb gyda hwy i ad-dalu unrhyw

ôl-ddyledion mewn rhandaliadau bob wythnos, ar ben eich taliadau rhent arferol. Os ydych yn denant y cyngor, bydd gan eich cyngor lleol bolisi ynglŷn â sut mae'n casglu ôl-ddyledion rhent.

Gofynnwch am help a chyngor

Os yw eich landlord eisiau eich troi allan am nad ydych wedi bod yn talu eich rhent yn brydlon, peidiwch â phoeni. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'ch landlord ddilyn gweithdrefnau penodol ar gyfer eich troi allan, a phan fydd hyn yn digwydd, bydd gennych gyfle i dderbyn cyngor a chymorth i chwilio am gartref newydd. Beth bynnag yw eich amgylchiadau, mae help a chymorth am ddim ar gael bob amser.

Am fwy o wybodaeth, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/homes/renting/rent-arrears-problems-paying-your-rent

Shelter (Lloegr a'r Alban)

0808 800 4444

shelter.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)

0345 075 5005

sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai
(Gogledd Iwerddon)

028 9024 5640

housingrights.org.uk

Problemau wrth dalu morgais

Os ydych yn berchen ar eich cartref a'ch bod yn cael problemau wrth dalu eich morgais, mae dau beth y dylech eu gwneud yn gyntaf:

1. Gwiriwch a oes gennych yswiriant diogelu taliad morgais neu incwm y gallwch chi ei hawlio i helpu gyda'ch ad-daliadau morgais.
2. Gwiriwch a oes gennych chi hawl i unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth – gweler tudalen 21.

Os ydych yn credu na allwch barhau i dalu eich taliadau morgais, cysylltwch â'ch darparwr morgais ar unwaith. Gallai oedi rhag cysylltu â'ch darparwr morgais leihau'r opsiynau sydd ar gael i chi. Dylai eich darparwr benthyciadau drafod opsiynau gyda chi am sut i wneud eich ad-daliadau yn fwy fforddiadwy i chi. Gallai'r rhain gynnwys:

- **lleihau eich ad-daliadau misol** ymestyn hyd eich morgais
- **cymryd gwylliau ad-daliad morgais** neu gytuno i leihau eich ad-daliadau dros dro
- **gosod eich cartref** dros dro a'ch bod yn byw rhywle rhatach
- **rhoi amser i chi werth eich cartref**, gan eich bod yn debygol o gael gwell pris na phe bai'ch benthyciwr yn adfeddiannu eich cartref ac yn ei werthu i chi.

Help gyda chostau morgais

Os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau prawf modd penodol, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, efallai y gallwch gael help gyda thaliadau llog eich morgais, a elwir yn Cymorth ar gyfer Llogau Morgais. Ond ni thelir hyn am 13 wythnos ar ôl i chi wneud hawliad.

Mae hyn wedi'i gapio ar £200,000 cyntaf eich balans morgais, neu £100,000 os ydych ar Gredyd Pensiwn.

Am fwy o wybodaeth am Gymorth ar gyfer Log Morgeisi, gan gynnwys pwy sy'n gymwys a faint fyddwch chi'n ei gael, ewch i gov.uk/cymorth-ar-gyfer-llog-morgais

Os ydych yn cael problemau wrth dalu eich morgais neu eich bod yn wynebu adfeddiannu, gofynnwch am gyngor ar unwaith. Ffoniwch Linell Gymorth Shelter ar 0808 800 4444.

Am wybodaeth am beth allwch chi ei wneud os oes gennych ôl-ddyledion morgais neu'n cael problemau wrth dalu morgais, ewch i moneyhelper.org.uk/problemau-talu-eich-morgais

Rhowch amser i chwilio am swydd

Cymorth y wladwriaeth i ddod o hyd i swydd

Bydd eich Canolfan Byd Gwaith (Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) yn rhoi cymorth a chynghor i chi am sut allwch chi ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys:

- **Swyddi gwag:** - Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith gronfa ddata fwyaf yn y DU o swyddi gwag (a elwir yn Find A Job neu JobCentre Online NI yng Ngogledd Iwerddon).
- **Help a chynghor** ar ysgrifennu CV, gwneud cais am swyddi, llenwi ffurflenni cais a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau.


Gallant hefyd drafod gyda chi unrhyw help ychwanegol a allai fod ar gael i chi os bydd angen help darllen, mathemateg neu'r Saesneg arnoch, neu os oes angen help arnoch i chwilio am swyddi proffesiynol neu weithredol.

Os ydych yn parhau i fod yn ddi-waith ar ôl tri mis, efallai y bydd angen i chi ymuno â Rhaglen Waith. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r llywodraeth ac yn darparu help wedi'i deilwra i baratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd i waith.

Mae'n bosibl y gall y Ganolfan Byd Gwaith hefyd drefnu treial gwaith i chi. Dyma gyfle i chi roi cynnig ar swydd i weld ai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd. Gall treialon gwaith bara am hyd at 30 diwrnod gwaith a bydd eich budd-daliadau yn parhau drwy'r cyfnod hwn. Os nad yw'r treial yn gweithio allan, ac nad ydych yn cael cynnig swydd, ni fydd hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Chwilio am swydd newydd

Hysbysir swyddi mewn nifer o leoedd, a gweler enghreifftiau o'r lleoedd hyn ar y dudalen nesaf. Mae hefyd yn werth cysylltu â chyflogwyr yn uniongyrchol, oherwydd nid yw cwmnïau bob amser yn hysbysebu swyddi gwag - sy'n golygu y bydd llai o bobl yn gwybod am swyddi gwag ac felly bydd llai o gystadlu ar gyfer y swydd.



Chwilio am swydd newydd

Ble?	Beth maent yn ei gynnig
Y Ganolfan Byd Gwaith (Paru Swyddi Ar-lein) a'r Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau (Jobcentre Online Gogledd Iwerddon)	● Dyma'r cronfeydd data swyddi gwag mwyaf yn y DU. ● Gallwch gael gwybodaeth am swyddi ar y rhyngrwyd, dros y ffôn, neu ffôn testun os ydych yn drwm eich clyw neu os oes gennych anawsterau lleferydd. ● Gallwch chwilio am swyddi yn Ewrop yn ogystal â'r DU.
Asiantaethau recriwtio	● Ar gyfer asiantaethau yn eich ardal chi, edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol neu cysylltwch â'r Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth – gweler <i>Cysylltiadau defnyddiol</i> ar dudalen 46. ● Ar gyfer asiantaethau sy'n recriwtio mathau penodol o swyddi, edrychwch yn y cyfeirlyfrau busnes a'r rhyngrwyd.
Y rhyngrwyd	● Mae nifer o gyflogwyr a phapurau newydd yn hysbysebu swyddi ar eu gwefannau. ● Mae asiantaethau cyflogaeth ar-lein hefyd yn ogystal â gwefannau asiantaethau recriwtio lleol. ● Gallwch ddefnyddio y rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd.
Papurau newydd	● Mae nifer o bapurau newydd lleol yn hysbysebu swyddi ac mae papurau newydd cenedlaethol yn aml yn hysbysebu gwahanol fathau o swyddi ar ddyddiau gwahanol. ● Dylai eich siop bapur newydd neu lyfrgell gyhoeddus allu dweud wrthych am hyn ac am unrhyw gyfnodolion masnachu arbenigol sy'n hysbysebu swyddi y gallai fod o ddiddordeb i chi.
Cyfnodolion proffesiynol a masnachu	● Os ydych yn chwilio am waith mewn maes penodol, gofynnwch a oes cyfnodolyn ar gyfer y math hwnnw o waith – dylai gweithiwr yn eich llyfrgell gyhoeddus wybod os oes un yn bodoli. Mae'r cyfnodolion hyn yn aml yn cynnwys hysbysebion swyddi.

Ble?	Beth maent yn ei gynnig
Ffenestri siopau	● Mae siopau, busnesau ac archfarchnadoedd lleol yn aml yn gosod cerdyn yn eu ffenestr neu ar hysbysfwrdd y tu mewn.
Cysylltiadau gwaith	● Peidiwch â theimlo cywilydd yn sôn wrth bobl eich bod yn chwilio am swydd newydd. Gofynnwch i bobl a ydynt yn gwybod am unrhyw swyddi posibl a allai fod yn addas i chi, yn eu cwmni hwy neu mewn cwmni arall.
Ffrindiau a theulu	● Efallai y byddant yn clywed am gyfleoedd swyddi, o bosibl yn eu cwmni os ydynt yn gweithio, a byddant yn gallu roi gair da ar eich rhan.

Ysgrifennu CV effeithiol

Eich CV yw eich allwedd i gyfweiliadau. Mae'n bwysig iawn bod eich CV yn tynnu sylw'r sawl sy'n recriwtio a'i fod yn cynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau y maent yn chwilio amdani.

- Defnyddiwch yr adeiladwr CV am ddim ar wefan Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.
- Am help a chynghor am ddim ar ysgrifennu CV effeithio, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy ffonio 0345 6060 234.

Gwella eich techneg cyfweld

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n nerfus wrth fynychu cyfweiliad. Ond os ydych yn paratoi'n dda, gall eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a gwella'r posibilïad ohonoch yn cael cynnig swydd.

Fel rhan o'r broses colli swydd, efallai y bydd eich cyn cyflogwr yn cynnig hyfforddiant am fynychu cyfweiliadau ac, os ydych wedi ymuno ag asiantaeth recriwtio, byddant yn rhoi cynghor i chi. Mae canllawiau ar gael hefyd ar wefan y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.



Ystyriwch ailhyfforddi

Gall colli eich swydd fod yn gyfle i ail-asesu eich uchelgeisiau gwaith. Efallai y byddwch yn penderfynu datblygu eich sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd i wella eich cyfleoedd o gael cynnig swydd neu i roi cyfleoedd gwaith newydd i chi.

Cyrsiau hyfforddiant

Mae cannoedd o gyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnal mewn colegau lleol a phreifat ar wahanol adegau. Mae'n rhaid i chi dalu am y rhan fwyaf o gyrsiau, ond os ydych yn ddi-waith efallai y bydd y cyrsiau am ddim neu am bris gostyngol.

- Cysylltwch â cholegau lleol neu'r Gwasanaeth Gyrfaedd Cenedlaethol (Lloegr), Skills Development (Yr Alban), Gyrfaedd Cymru neu'r Gwasanaeth Gyrfaedd Gogledd Iwerddon - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.
- Os oes diddordeb gennych mewn dysgu o bell, mae Learn Direct yn cynnig ystod eang o gyrsiau y gallwch eu gwneud ar eich cyflymder eich hun ar y rhyngrwyd, neu gallech ystyried cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan Y Brifysgol Agored - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Prentisiaethau

Fel prentis, byddwch yn ennill cyflog wrth gael eich hyfforddi ac efallai y bydd modd i chi ennill cymhwyster. Am fanylion am gynlluniau prentisiaethau, gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Dewisiadau eraill i hyfforddiant ffurfiol

Mae nifer o bethau eraill y gallwch eu gwneud i gael profiad buddiol, a all wneud i chi deimlo'n fwy hyderus a gwella eich cyfleoedd o gael cynnig swydd. Gallai'r rhain gynnwys:

- gwneud gwaith rhan amser neu waith achlysurol
- cymryd rhan mewn grŵp cymunedol lleol
- gwirfoddoli.

Fodd bynnag, dylech wirio yn gyntaf a allai hyn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu hawlio - cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith, neu'r Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon, neu gynghorydd budd-daliadau - gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 46.

Cychwyn eich busnes eich hun

Gall gweithio i chi eich hun roi llawer o foddhad i chi a gall hefyd fod yn broffidiol iawn mewn rhai achosion. Mae'n gyfle i chi wneud rhywbeth sydd wir o ddiddordeb i chi mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'ch ffordd o fyw a'ch ymrwymadau.

Fodd bynnag, gall busnesau newydd fod yn di-ddal ac mae nifer ohonynt yn methu. Nid ydych eisiau rhoi oriau o waith caled a buddsoddi llawer o arian mewn i fusnes, a bod y busnes yn methu yn y pen draw.

Yn ffodus, os ydych yn ystyried cychwyn eich busnes eich hun, mae digon o help a chynghor ar gael i chi.

Gall y Ganolfan Byd Gwaith (Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon) esbonio am y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu pobl ar fudd-daliadau sydd am gychwyn busnes.

Ewch i wefan GOV.UK i gael cynghor ar sut i gofrestru busnes newydd er mwyn sicrhau eich bod yn cyflawni'r rheolau trethi, ac am gynghor ar bob agwedd o gychwyn busnes.

Cofiwch -

Mae'r neges yn syml: os byddwch yn cychwyn busnes - cynlluniwch, cynlluniwch, ac yna cynlluniwch fwy.



Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn sefydliad annibynnol wedi'i sefydlu gan y Llywodraeth i helpu pobl i wneud y gorau o'u harian drwy roi cyngor diduedd ar bensiynau ac arian i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

Am gyngor diduedd ac am ddim ar unrhyw ymholiadau arian neu bensiynau, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio:

Cyngor arian

0800 138 3944

Llun – Gwe 8yb–6yh

+44 20 3733 3495

os ydych y tu allan i'r DU

Cyngor pensiynau

0800 011 3797

Llun – Gwe 9yb i 5yh

+44 20 7932 5780

os ydych y tu allan i'r DU

Neu ewch i moneyhelper.org.uk/cy

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

moneyhelper.org.uk/pensionschat

WhatsApp:

+44 7701 342744

(cyngor arian)

Ymunwch â'n **cymunedau ar-lein** am gymorth: moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities

Problemau dyledion

Cyngor ar Bopeth

citizensadvice.org.uk

Cymorth Hawlio Cyngor ar Bopeth

Rhif ffôn: 0800 144 8 444

Ffôn testun: 180010800 144 8 444

Elusen Dyledion StepChange

0800 138 1111

stepchange.org

National Debtline

0808 808 4000

nationaldebtline.org

Gwasanaeth Cyngori Ariannol Yr Alban

0141 572 0237

moneyadvicescotland.org.uk

Debt Action Gogledd Iwerddon

028 9064 5919

adviceni.net/advice/debt

Chwilio am gynghorydd ariannol

The Personal Finance Society

Am gynghorwyr ariannol yn eich ardal
thepfs.org

Chwilio am swydd

Y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth

020 7009 2100
rec.uk.com

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol

0800 100 900
nationalcareersservice.direct.gov.uk

Cyngor ar dai

Shelter (Lloegr a'r Alban)

0808 800 4444
sheltercymru.org.uk

Shelter Cymru (Cymru)

0345 075 5005
sheltercymru.org.uk

Gwasanaeth Hawliau Tai (Gogledd Iwerddon)

028 9024 5640
housingadviceni.org

Cyngor ar Bopeth

citizensadvice.org.uk/cymraeg

Cyngor budd-daliadau

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, mae gan Gyngor ar Bopeth wasanaeth penodol i'ch helpu.

Lloegr: 0800 144 8444

Cymru: 0800 024 1220

Yr Alban: 0800 023 2581

Neu chwiliwch am eich swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol yn citizensadvice.org.uk yng Nghymru a Lloegr neu cas.org.uk yn Yr Alban

Canolfan Gwaith

Canolfan Byd Gwaith (Prydain Fawr)

0800 055 6688
gov.uk/contact-jobcentre-plus

Swyddi gwag: Paru Swyddi Ar-lein
gov.uk/jobsearch

Swyddfa Gwaith a Budd-daliadau neu'r Swyddfa Nawdd Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon)

Chwilio am swyddi a budd-daliadau
nidirect.gov.uk

Swyddi gwag: Jobcentre Online Gogledd Iwerddon
jobapplyni.com

Awdurdod neu gyngor lleol

Cyngor lleol - i chwilio am eich cyngor lleol, ewch i
gov.uk/find-your-local-council

Pensiynau

Pension Wise

0800 138 3944
moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise

Colli swydd

Gwasanaeth Taliadau Colli Swydd

gov.uk/claim-redundancy

Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu

0300 123 1100

acas.org.uk

Cyngor ar Bopeth

citizensadvice.org.uk

Asiantaeth Cysylltiadau Gwaith (Gogledd Iwerddon)

03300 555 300

ira.org.uk

Gwasanaeth Tribiwnlys Cyflogaeth

gov.uk/courts-tribunals/employment-tribunal

Ailhyfforddi

Cynlluniau prentisiaethau

Lloegr:

apprenticeships.org.uk

Cymru:

wales.gov.uk/apprenticeships

Yr Alban:

apprenticeships.scot

Gogledd Iwerddon

nidirect.gov.uk/apprenticeships

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol

0800 100 900

nationalcareersservice.direct.gov.uk

Gyrfaoedd Cymru

0800 028 4844

gyrfacymru.llyw.cymru

Gwasanaeth Gyrfaoedd Gogledd Iwerddon

0300 200 7820

nidirect.gov.uk/careers

Learn Direct

0800 101 901

learnndirect.com

Skills Development Scotland (help a chyngor gyrfaoedd)

0800 917 8000

careers.myworldofwork.co.uk

Partnership Action for Continuing Employment (PACE) – gwasanaeth cymorth colli swydd yn Yr Alban

0800 917 8000

redundancyscotland.co.uk

Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein

onlinecentresnetwork.org

Learn My Way

learnmyway.com

Treth

Cyllid a Thollau EM

0300 200 3600

hmrc.gov.uk

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

[illegible]



Y llawlyfr colli swydd yw un o'r canllawiau sydd ar gael gan HelpwrArian. Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg. I weld y cyhoeddiad hwn ac ystod lawn ein canllawiau ac i ofyn am gopi, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

HelpwrArian*

Cyngor arian **0800 138 7777**

Llun - Gwe 8yb-6yh

Cyngor pensiynau **0800 011 3797**

Llun - Gwe 9yb i 5yh

Typetalk **1800 10800 915 4622**

Llun - Gwe 8yb i 6yh

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr
↪Arian
Gwaith

Os hoffech dderbyn y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar y rhifau ffôn uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2023). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

*Mae galwadau am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu'n monitro galwadau.